CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**30.09.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; DP; JOJ; AR; GW; TAJ<br>**Ymddiheuriadau:** RJ;IW; DM; BJ;DL; EO<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng Ken Hughes |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DW/GW ddiddordeb yn Eitem 5 Materio Cyllid a KH Eitem 6 Materion Cynllunio. |
| **3** | **Cofnodion**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 29.7.21 fel rhai cywir – (AR/DP)<br>**Materion yn Codi**<br>**Lein Amlwch-** trafodwyd cais y grwp gwirfoddolwyr i gael storio eu cyfarpar clirio'r lein yn y Stesion. Cytunwyd i gefnogi'r cais. Clerc i gysylltu a Carys Hughes/Ifor Huphreys i gytuno ar maint a lleolliad y storfa ar y safle.<br>**Parcio yn y Stesion –** adroddod y Clerc am lori a dau gar wedi parcio ar y ramp (ger y garafan a'r fan Werdd) yn y Stesion a hyny heb gyswllt na chaniatad. Dywedodd bod Iona Beckmann PCSO wedi cysylltu a'r perchennog gan roi rhif ffon y Clerc iddo. Derbyniodd y Clerc alwad ffon gan Mr Harry Jordan, y perchennog, a bu trafodaeth am yr angen i gael caniatad i barcio ar eiddo preifat. Yn dilyn sgwrs eithaf anodd eglurodd y Clerc bydd trafodaeth bellach yn y cyfarfod hwn gan ddiweddu'r alwad ffôn.<br>Yng ngoleuni'r ffaith bod Mr Jordan wedi cyferio y bydd yn trin y ceir dan sylw ar y safle (weldio ac yn y blaen) cyn ceisio eu gwerthu ymlaen, cytunwyd yn unfrydol i wrthod y cais. Cytunwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mr Jordan yn ei hysbysu na fydd y Cyngor Cymdeithas yn cynnig |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | cytundeb parcio ffurfiol iddo ac yn gofyn iddo symud ei eiddo erbyn 15.10.21 ac os na fydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor Cymdeithas yn cymryd camau ffurfiol cyfreithiol.<br><br>Nododd TAJ na ddylia'r Clerc dderbyn unrhyw alwad ffôn pellach gan y person hwn ond yn hytrach ei gyfeirio at un o'r Cynghorwyr.<br><br>**Cytundeb Torri Gwair –** cytunwyd i drafod y rhaglen torri gwair ar gyfer 2022 yng nghyfarfod mis Ionawr ac yna trefnu cyfarfod gyda Rhys Williams i sicrhau amserlen well ar gyfer y tymor nesaf.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun gweithredu i greu fersiwn 30.9.21 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**DP –** cyferiodd eto at y twll yn y wal ger y Fynwent Gyhoeddus – GW i drwshio mor fuan a bo modd.<br>- Cyfeiriodd at y tir ger Unedau Tan y Foel a'r angen i drafod defnydd gwell o'r safle.<br><br>**JOJ** – llanast- chwyn a thyfiant ym maes parcio Glan Menai – Clerc i gysylltu a CSYM sef y perchnogion.<br>- Cwynion i law am safon prydau bwyd ysgolion gan fod y darparwyr wedi newid i cwmni Chartwells. Nododd KH bod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa a bod swyddog yn monitro dros yr wythnosau nesaf.<br><br>**TAJ -** cyfeiriodd at y safle dros ffordd i'r Siop Elusen oedd gyda cais cynllunio amlinellol arno. Cytunodd y Clerc i holi CSYM os oedd y cais yn parhau yn gyfredol.<br>- Cytunodd i drafod torri drain sy'n tyfu i'r pafin ger y ffordd fawr o Wenllys hyd at Bryncir gyda'r perchennog y cae sef Mr Huw Lloyd Jones.<br><br>**AR –** nododd bryder pellach am y groesfan newydd ar y Stryd Fawr a'r ffaith bod ceir yn gyrru cyn cyrraedd ati. Cytunwyd i holi CSYM am y posibilirwydd o gael gosod llinellau coch arafu ceir ger y safle.<br>- Holodd tybed ddylai CC Llan feddwl am osod cyfarfpar cyflenwi trydan i geir yn y pentref. Nodod y Clerc bod Grwp LlanNi yn edrych mewn i'r posibilrwydd ac wedi cael canitad mewn egwyddor i osod un ar safle'r Stesion.<br>- Holodd beth yw'r drefn bellach ar Cae Gofeb a cherdded cwn yno. Cadarnhawyd na ddylid cerdded cwn yn yr adral lle mae'r offer chwarae. Nodwyd hefyd bod angen bin newydd yn yr ardal dim cwn. Clerc i weithredu |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

**GW –** nododd ei fod wedi archebu clampiau ychwanegol er mwyn gorffen gosod y biniau bagiau baw ci. Holodd am gael ail-osod bin gwastraff ger Bryncir – ni ail-osodwyd bin yn dilyn dymchwel y goeden rhai blynyddoedd yn ôl. Clerc i holi CSYM.

**DW –** holodd am y posibilrwydd o gael gosod Safle Bysiau ychwanegol yn y pentref i sicrhau diogelwch defnyddwyr bws. Hefyd gosod Gwarchodfa Bws ger Bryncir lle mae'r plant yn dal bws ysgol er mwyn eu gwarchod yn y tywydd garw.

**JAJ –** cadarnhaodd ei fod wedi derbyn addewid gan RPO Williams bydd cynlluniau ar gyfer llwybrau'r Fynwent Gyhoeddus i law wythnos nesaf.

- Adroddodd ar gwynion am y diffyg apwyntiadau yng Nglan Menai. Cytunwyd i wahodd cynrychiolaeth o Goed y Glyn i ddod atom i drafod a rhoi eglurhad ar y sefyllfa gyfredol.

**KH –** cyfeiriodd at Strategaeth Tai Cyngor Ynys Môn sydd ar fin gael ei chylchredeg ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Cytunwyd i'r Clerc gylchredeg copi at yr aelodau.

**5** **Materion Cyllidol a Thaliadau**

**Taliadau Misol**

| **Gwariant ers cyfarfod Gorffennaf** | **£** |
|---|---|
| Scottish Power – bil trydan CPD | 45.12 |
| Scottish Power – bil trydan Golau Dolig | 29.91 |
| Scottish Power – bil trydan Uned 1 | 53.51 |

**Biliau cyfredol**:

| | |
|---|---|
| PGF Agri – trwshio deckbelt peiriant torri gwair CPD (bydd ad-daliad o £69.55 gan y CPD) | 83.46 |
| Dwr Cymru – cyflenwad dwr Clwb Bowlio (am 6 mis) | 21.81 |
| Dwr Cymru – cyflenwad dwr Fynwent Gyhoeddus | 19.06 |
| Iwan Roberts – codi ffensys yng Nghae Gofeb (nodwyd bod £1500 wedi ei glustnodi o arian grant ar gyfer hwn) | 3589.20 |
| Williams Bros – gofal a thrwshio pentref – Glan Menai – trwshio maic £25.20; Eglwys Ceidio – trwshio to £85.00; Clwb Bowlio – trwshio ffens ar hyd y terfyn £278.53 a gosod meinciau - £84.70 (hyn yn cynnwys llafur a brynu nwyddau pwrpasol) Cyfanswm - | 473.43 |
| Aled Moss Cyfrifiaduon – monitor newydd ar gyfer cyfrifiadur y Clerc | 170.00 |

Cyflog Clerc Gorff; Awst a Medi (£1633.47) a thri taliad trwydded ZOOM


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | | |
|---|---|---|
| | (14.39 X3 £43.17) - cyfanswm<br><br>Balans yn y Banc 14 Medi 2021 = £16293.07 | 1676.64 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>**Wedi ei caniatau ers cyfarfod mis Gorffennaf:-**<br>- Bryn Hyfryd Carmel<br>- Fferm Wyau Cae Mawr<br><br>**Angen trafodaeth:-**<br><br>**Cais FPL/2021/185 -** Sarn Fadog – dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais HHP/2021/273 –** Haulfre Terrace Carmel – dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais FPL/2021/216 –** Pwll Gynnau – dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais FPL/2021/ 198 –** Bryn Gollen Newydd – dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais FPL/2021/188 –** Gamfa Goed – dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais FPL/2021/192 –** Chwaen Goch – dim gwrthwynebiad.<br><br>Cyferiodd y Clerc at ebost dderbyniwyd am Dystysgrif Cyfreithlondeb o ddatblygiad arfaethedig mewn perthynas a chychwyn gwaith materol ar ganiatad cynllunio rhif 25C23F (Codi 16 caban pren ar gyfer defnydd gwyliau ynghyd a creu mynedfa newydd a gosod 3 tanc septig newydd) ym Mharc Newydd. Yng nghyswllt cyflwyniad ar y mater uchod nid yw'r Adran Gynllunio yn gofyn am eich sylwadau, yn ôl ei harfer o wneud hynny gyda cheisiadau cynllunio; fodd bynnag dymuna gael unrhyw wybodaeth a allai fod ym meddiant y Cyngor Cymdeithas ac o gymorth i bennu a ydyw'r defnydd uchod yn gyfreithlon. Nid oedd sylwad i law. | |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall –**<br><br>Cais gan Tilly Thomas i ddefnyddio stafell bellaf y Stesion am gyfnod. Adroddodd y Clerc bod Carolyn Owen tenant y Stesion wedai cael cais am y defnydd uchod ac am gael arweiniad /caniatad y Cyngor Cymdeithas i fwrw mlaen a'r cynllun. Nododd y Clerc bod ein asiant Rhys Jones yn nodi bod defnydd achlysurol i fyny i Carolyn ond byddai rhaid cael cytundeb mwy ffurfiol i is-osod. Cytunwyd i Carolyn drefnu yn uniongyrchol gyda Tilly Thomas am gyfnod prawf o 3 mis. Clerc hefyd i atgoffa Carolyn am yr Etholiadau arfaethedig ym mis Mai 2022 a'r angen i sicrhau lle digonol i'r Orsaf Bleidleisio<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.10* | |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383